

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION PANEL CYLLID 12 CHWEFROR 2019

Presennol

Cadeirydd – Cyng W L Davies

I C Thomas, C Williams, R Thomas, W T Owen, S Sage, M Sarnacki

Gwestai – Parch R F Donaldson

Cafwyd gwybodaeth gan y Parch Donaldson am gynllun uchelgeisiol iawn gan yr Eglwys i geisio rhoi trefn ar yr hen fynwent, gan geisio denu arian grant mawr cyn medru cychwyn . Mi fuasai yn cael ei rannu yn 8 darn , ac yn cael eu gweithredu fesul 2 ddarn ar y tro . Gwaith mawr wedi ei wario ar y twr , fydd yn rhan o gynllun drysau agored eleni gobeithio

Gofynnwyd nifer o gwestiynau wrth y Parchedig ac ar ddiwedd y drafodaeth roedd pawb yn hapus i dalu'r cyfraniad arferol o £1000 yn Mis Ebrill gan nodi bod angen cais cynhwysfawr cyn mis Hydref os oeddent yn gofyn am swm fwy fel ei bod yn yr amcangyfrifon . ( gyda'r amod bod taliad ddim yn cael ei dalu allan tan bod tystiolaeth bod y gwaith am barhau h.y. bod yr arian grant yn llwyddiannus ag ati )

### **1. Ymddiheuriadau**

Cyng C Larsen a Cyng E R Hughes

### **2. Datgan Buddiant Personol**

Cyng C Williams cais clwb pêl-droed

### **3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Dim

#### 4. Ceisiadau Ariannol :

- i) Eisteddfod Genedlaethol
- ii) Starliners Majorettes
- iii) Clwb pêl-droed Caernarfon

##### **Penderfynwyd**

- i) Talu £500 ym Mis Ebrill (unfrydol)
- ii) Talu £200 rŵan ond egluro bod angen cyfrifon llawer mwy manwl tro nesaf ac angen cais i mewn cyn mis Hydref (unfrydol)
- iii) Talu £500 rŵan (6 o blaid a 1 ymatal )

#### 5. Cynllun Ffrindiau Ffermwyr Ifanc Eryri

##### **Penderfynwyd**

Talu'r £100 o ffi aelodaeth er mwyn eu cefnogi (unfrydol)

#### 6. Teledu Cylch Gyfyng CCTV

Cafwyd cefndir gan y clerc bod ymweliad y swyddogion yn rhy hwyr ar gyfer amcangyfrifon eleni , ond roeddent yn awyddus i gael barn mewn egwyddor rŵan yn hytrach na disgwyl am flwyddyn arall . Gan bod gymaint o wahaniaeth yn y gost

##### **Penderfynwyd**

Gofyn i'r swyddog ddod i drafod a'r panel cyllid yn diweddarach yn y flwyddyn (unfrydol)

#### 7. Taliadau ar-lein

Eglurodd y clerc bod y drefn newydd ddim yn gweithio ac yn drafferthus. Er mwyn lleihau problemau y staff yn awgrymu :

- 1. Y Swyddog Ariannol cyfrifol i awdurdodi'r anfoneb
- 2. Y Maer a'r Dirprwy i arwyddo'r anfoneb i gadarnhau cywirdeb
- 3. Un aelod o staff y swyddfa i brosesu'r taliad ar-lein
- 4. Ail aelod o staff i roi y sêl bendith ar-lein er mwyn rhyddhau'r taliad  
( Y Maer i fod wrth gefn i wneud hyn yn ystod gwyliau staff )

##### **Penderfynwyd**

I fabwysiadu'r argymhellion a newid y rheoliadau ariannol i gydnabod y newidiadau hynny (unfrydol)

Gorffennodd y cyfarfod am 6

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....

